
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Llwybr Arfordir y Mileniwm, Sir Gaerfyrddin

## Y lle delfrydol am daith feics deuluol neu dro bach hamddenol.

*"Dyma ran wych o Lwybr Arfordir Cymru ble allwch chi feicio neu fwynhau'r golygfeydd ar droed ar lwybr arfordirol hygyrch, di-draffig sy'n dilyn arfordir prydferth Sir Gaerfyrddin. Dyma'r lle delfrydol i ddod â'r teulu er mwyn darganfod y rhan hon o Gymru."*

**TRICIA COTTNAM, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

### Dechrau a Diwedd:
Casllwchwr i Ben-bre.

### Pellter:
13 milltir/21km.

### Ar hyd y ffordd...
Mae'r rhan hon o Lwybr Arfordir Cymru yn dilyn rhan hawdd a gwastad o arfordir Sir Gaerfyrddin a gall y teulu oll ei mwynhau ar droed neu ar feic. Wrth i chi deithio, byddwch chi'n pasio amrywiaeth enfawr o bethau i'w gweld a'u gwneud, gan gynnwys Gwarchodfa Gwlypdiroedd sy'n gartref i haid o fflamingos pinc, traethau euraidd enfawr, porthladdoedd hardd a pharc gwledig sydd â llethr sgïo sych.

Os yw'r pellter cyfan yn ormod (13 millir / 20 cilomedr), yn enwedig i deuluoedd, mae Darganfod Sir Gâr wedi rhannu'r daith gerdded hon i bedair rhan ar eu gwefan nhw: http://www.darganfodsirgar.com/crwydro/llwybrau-beicio-epig/llwybrau-ir-teulu-cyfan/parc-arfordirol-y-mileniwm/

### Angen gwybod:
Mae nifer o feysydd parcio, lleoedd bwyta, cyfleusterau a siopau ar hyd y ffordd yn ogystal â chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus gwych. Am yr holl fanylion ewch i wefan Darganfod Sir Gâr:

http://www.discovercarmarthenshire.com/explore/epic-cycling-routes/family-friendly-routes/millennium-coastal-path